

Ysgol Bro Alun  
Rhodfa Delamere  
Gwersyllt  
Wrexham  
LL11 4NG  
Ffôn: 01978 269580  
Ffacs: 01978 269589



Ysgol Bro Alun  
Delamere Avenue  
Gwersyllt  
Wrexham  
LL11 4NG  
Tel: 01978 269580  
Fax: 01978 269589

---

## YSGOL BRO ALUN

---

Mr Osian Jones BA  
Pennaeth Head Teacher

E-bost/E-mail: [mailbox@broalun-pri.wrexham.sch.uk](mailto:mailbox@broalun-pri.wrexham.sch.uk)

Medi 5ed 2017

Annwyl rieni a gwarchodwyr

Croeso nôl i chi gyd yn dilyn gwyliau'r haf. Gobeithio i bawb fwynhau'r toriad. Croeso arbennig i'r 30 o ddisgyblion newydd fydd yn cychwyn yn nosbarth Meithrin yr ysgol dros y bythefnos nesaf. Isod mae ychydig o wybodaeth am rai pethau ddechrau'r tymor:

### Staff

Rydym yn croesawu pump o staff newydd atom i'r ysgol - tair athrawes sef Mrs Elen Jones-Morris (Bl 3), Miss Hawys Parry (Bl 4) a Miss Elen Jones (CPA a grwpiau), a dwy gymhorthydd, Miss Jordanne Horsler (Derbyn) a Mrs Ceri Kingsley-Williams (Bl 1). Gobeithio y byddant yn hapus ac yn mwynhau eu hamser yma. Trosodd, fe welwch strwythur staffio yr ysgol am 2017-18.

### Parcio

Nawr fod yr ysgol yn tyfu, mae'r maes parcio yn brysur iawn yn y bore a'r prynhawn gyda nifer gynyddol o staff a rhieni. Yn ystod yr wythnosau nesaf, byddwn yn asesu'r sefyllfa parcio yn yr ysgol gan gysidro a yw'r amser wedi dod i ddefnyddio'r maes parcio fel maes parcio i'r staff yn unig, fel mae ysgolion eraill yn ei wneud, a fel oedd pwrpas gwreiddiol y maes parcio pan adeiladwyd yr ysgol. Yn y cyfamser, gofynwn i chi gymryd gofal wrth barcio, mynd nol a mlaen i'r car a hefyd peidio a gyrru'n gyflym mewn ac allan o'r maes parcio.

Yn ychwanegol at hyn, fe fydd bus ysgol yn defnyddio'r ardal 'Bysus yn unig' eleni felly gofynwn i chi beidio parcio yn yr ardal yma cyn 8:20am na rhwng 3:45pm a 4:05pm fel bod lle i'r bus yrru mewn ac allan yn ddiogel. A wnewch chi basio'r wybodaeth yma ymlaen i unrhywun sy'n gollwng neu gasglu plant o'r ysgol os gwelwch yn dda.

### Gwisg Ysgol

Rydym yn ymwybodol fod nifer o rieni wedi cael trafferthion efo cwmni School Trends wrth archebu gwisg ysgol dros yr haf, yn enwedig i wneud efo dilad allan o stoc a phostio'r dillad. Rydym yn siomedig iawn efo'r cwmni am hyn a byddwn yn cysylltu efo'r nhw i weld beth sydd wedi mynd ymlaen a pham fod hyn wedi digwydd. Fe fydd yr opsiwn i gael dillad sydd yn cael ei archebu wedi eu danfon i'r ysgol am ddim, yn hytrach na gorfod talu i'w cael wei eu gyrru i'r cartref ar gael ar safle'r cwmni ddiwedd y mis.

Diolch yn fawr,  
Osian Jones